# Cofnodion

## Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu

Dyddiad: Dydd Iau, 26 Medi 2019

Amser: 4.00 pm

Bresennol: Cynghorwyr L Lacey (Cadeirydd), M Al-Nuaimi, G Berry, C Evans, M Evans, C Ferris, Y Forsey, K Thomas and P Hourahine

Will Godfrey (Chief Executive), Beverly Owen (Strategic Director (Place)), James Harris (Strategic Director - People), Tracey Brooks (Development and Regeneration Manager), Keir Duffin (Head of Regeneration, Investment and Housing), Anne Jenkins (Governance Team Leader) and Gareth Price (Head of Law & Regulation)

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr

---

1 **Datganiadau o Fuddiant**

Dim

2 **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 12/07/2019**

Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod gwir a chywir.

Materion yn codi

**Taflen Weithredu:**

- Pwynt 1: Dywedwyd nad yw'r wybodaeth monitro hyfforddiant orfodol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn gyfredol. Rhoddwyd data ar gael bob mis Tachwedd, gwnaed yr hyfforddiant fel rhaglen dreigl felly roedd angen monitro.

  Cysylltid â'r Pennaeth Diogelu Corfforaethol am ragor o wybodaeth.

- Pwynt 5: Rhyddid Gwybodaeth i sicrhau ehangu'r wefan ar gyfer dinasyddion - cwblhawyd, gwybodaeth wedi ei negyddu.

3 **Adroddiad Blynyddol y Cynllun Corfforaethol 2018/19**

Yn bresennol:
- Debbie Wilcox, Arweinydd
- Will Godfrey, Prif Weithredwr
- James Harris – Cyfarwyddwr Strategol – Pobl
- Beverly Owen - Cyfarwyddwr Strategol - Lle

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i'r Pwyllgor am gael y cyfle i gyflwyno'r cynllun cyn diswyddo fel Arweinydd y Cyngor.

Hwn oedd yr ail Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Corfforaethol sy'n nodi amcanion y weinyddiaeth. Roedd y cynllun yn gipolwg ar beth roedd y Cyngor wedi ei weithredu; fodd bynnag; dywedodd yr Arweinydd ei bod yn bwysig bod yr aelodau'n deall y byddai gwybodaeth fwy manwl ar gael petai ar y Pwyllgor ei hangen.

- Cyfeiriodd yr Arweinydd at yr heriau ariannol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu. Trafodwyd y gyllideb mewn Is-Bwyllgor Cyllid gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Pobl a gobeithid y byddai cyllid gan Lywodraeth Cymru'n cael ei basio i lawr i'r Awdurdod Lleol.

- Roedd galw cynyddol am wasanaethau allweddol yn y rheng flaen, megis y Gwasanaethau Cymdeithasol; fodd bynnag; deuai'n anodd rhoi cyllid ychwanegol yn y meysydd hyn.

- Mewn cymhariaeth â'r 22 Cyngor yng Nghymru, o ddangosyddion Perfformiad Cyngor Dinas Casnewydd, roedd 9 o'r 18 dros y Cymedr Cenedlaethol yng Nghymru a 9 o'r 18 dano. Roedd pobl Nad ydynt Mewn Addysg, Hyfforddiant na Chyflogaeth a Tai yn dangos fel meysydd lle bu gwelliant sylweddol. Roedd y meysydd a oedd yn tangyflawni yn cael eu monitro gan yr Uwch Dîm Rheoli a'r Tîm Rheoli Corfforaethol.

- Roedd Themâu'r Pedair Amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol yn cael eu datblygu.

- Cawsai Addewid Pobl Ifanc ei weithredu, a allai arwain at raglen prentisiaeth a rhaglen graddedigion. Roedd diogelu plant yn dal i fod yn her. Helpodd Rose Cottage, a agorodd ym mis Ionawr 2019, i ostwng effaith lleoliadau allan o'r sir gan wneud arbedion trwy ail-leoli. Roedd ail eiddo yng Nghasnewydd ar fin cael ei brynu.

- Yn ddiweddar, agorodd yr Arweinydd Oaklands gyda'r Maer a soniodd am y gwaith hyfryd a wnaed gan y staff ar gyfer y rhai sydd mewn gofal seibiant.

- Roedd yr adborth a gafwyd yn archwiliad diweddar Estyn yn gadarnhaol, roedd y canlyniadau Lefel A yn 53% a'r graddau TGAU A*-C yn 58%.

- Roedd y portffolio Adfywio yn gwella canol y ddinas ynghyd â'r Ganolfan Gynhadledd Ryngwladol yn y Celtic Manor, adeilad Swyddfa'r Post ac adrannau Israddedig ac Ôl-raddedig yr Orsaf Wybodaeth.

- Roedd ailgynhyrchu wedi cynyddu yn fwy na'r rhagfynegiadau.

- Lleihaodd Swyddogion Gorfodi Parcio Sifil o 1 Gorffennaf barcio anghyfreithlon a chael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd.

- Roedd hyb Cymdogaeth Ringland bron wedi ei gwblhau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Arweinydd am ei chyflwyniad a chymerodd y pwyllgor y cyfle i longyfarch yr arweinydd a'r Prif Weithredwr ar eu hymdrechion newydd.

Gofynnodd y Pwyllgor y cwestiynau canlynol:

- Gofynnodd aelod pam roedd academi'r meddalwedd ac IQE yn y cynllun oherwydd mai llwyddiant y ddinas oedd y rhain ac nid llwyddiant y Cyngor. Eglurwyd er nad oedd y gwaith y tu cefn i'r cwmnïau technoleg hyn dan reolaeth y Cyngor, defnyddiwyd IQE, cyfleuster technoleg uchel yng Nghasnewydd a'r Academi

Meddalwedd Genedlaethol fel enghreifftiau o astudiaethau achos ar sut cyflawnwyd a hyrwyddwyd amcanion.

- Teimlwyd bod yr 20 ymrwymiad yn anodd dod o hyd iddynt neu eu croes gyfeirio â'r Cynllun. Amlygwyd dwy enghraifft, sef Siarter y Plant - yn y ddogfen wreiddiol, roedd addewidion penodol megis lleihau nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant. Dylid nodi hyn fel canran ac ni ddylid ei chroesgyfeirio. Dinas sy'n Ffynni - cafodd y Cyngor statws baner borffor ar gyfer economi'r nos; fodd bynnag nid oedd modd dod o hyd i hyn. O safbwynt craffu, roedd yn amhosibl monitro. Dylai'r Cynllun fod yn 'feibl' y gellid cyfeirio ati ar bob testun perthnasol.

  Eglurwyd bod y ddogfen yn Drosolwg Strategol ar yr holl Gynllun hyd at fis Ebrill eleni. O ran y statws Baner Borffor, roedd y Cyngor bron yno. Sylwodd y tîm Safonau Masnach ar hyn a byddai'n cael ei gynnwyd yn y Cynllun Corfforaethol nesaf.

- Defnyddiwyd IQE, cyfleuster technoleg uchel yng Nghasnewydd a'r Academi Meddalwedd Genedlaethol fel enghreifftiau o astudiaethau achos ar sut cyflawnwyd a hyrwyddwyd amcanion; fodd bynnag nid dan reolaeth y Cyngor oedd y gwaith manwl y tu cefn i'r cwmniau hyn.

- Cafodd y pwyllgor wybod y dylai'r Cynllun ystyried y gynulleidfa; pwy fyddai derbynnydd y Cynllun? Teimlid bod y ffurf yng anghyson ac felly ystyriodd y pwyllgor a oedd hyn yn safonol yntau a gafodd ei ddatblygu? Teimlid bod y Cynllun yn anelu'n rhy isel a'i fod yn rhy hygyrch fel llyfr lluniau ac nad oedd yn edrych yn broffesiynol iawn. Ni chymerwyd y cyfle i roi gwybodaeth gefndir ar beth fu'n llwyddiannus ac yn aflwyddiannus a gellid bod wedi ei gyflwyno mewn modd gwahanol. Er enghraifft, mater o foderneiddio'r Cyngor trwy bethau fel hawliau'r Plant oedd Siarter y Plant.

  Cafodd y Pwyllgor wybod nad oedd y Cynllun wedi dilyn ffurf y flwyddyn flaenorol; fodd bynnag, gellid trafod hyn â'r swyddogion.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Pwyllgor am y dadansoddiad cyflawn ac am fod yn gyfaill beirniadol. Cawsai swyddogion eu hannog i roi cynnwys mwy dangosol ond byddai'r sylwadau'n cael eu nodi ar gyfer Cynllun y flwyddyn nesaf.

Soniodd y Pwyllgor hefyd bod rhai gwallau teipio. Câi hyn ei basio ymlaen i'r swyddogion i'w gywiro.

Cydnabu'r Pwyllgor ei bod yn bwysig rhoi adborth beirniadol ac yn amlwg roedd wedi helpu i wella bywydau pobl. Roedd yr awgrymiadau yn gadarnhaol hefyd a caent eu mesur yn erbyn amcanion CAMPUS ac amserlenni realistig. Dylai bod y Cynllun yn esblygu o hyd.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod cyfarfodydd wythnosol yn cael eu cynnal ac roedd yn ddogfen 'fyw'.

Awgrymodd y Pwyllgor hefyd bod angen mynd i'r afael ag allyriadau CO2 oherwydd y byddai hyn yn chwarae rôl bwysig yn y Cynllun.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r Arweinydd pa feysydd unigol a oedd yn tangyflawni a sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain yn y dyfodol.

Atebodd yr Arweinydd fod y materion diogelwch yn bryder, yn benodol y Gwasanaethau Plant ac Oedolion oherwydd bod y gwasanaethau hyn yn ateb galw ac yn nhir cyhoeddus ond nid oed digon o arian i dalu am y gwasanaethau. Gellid cyflawni'r Cynllun o ran y

meysydd eraill ynddo pe caed ei arwain yn gywir ac felly roedd angen cadw gwasanaethau atal dan arolwg.

Ni chredai'r Prif Weithredwr fod unrhyw feysydd yn y cyngor yn tangyflawni. Cipolwg bychan ar sut mae'r Cyngor yn perfformio oedd y Dangosyddion Perfformiad.

Aeth y Prif Weithredwr ymlaen i ddweud mai Casnewydd oedd yr unig gyngor yng Ngwent nad oedd wedi cael ymyrraeth statudol gan y Rheoleiddiwr Cenedlaethol er 2013. Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y staff a dan yr amgylchiadau, roedd cyflogeion yn gwneud gwaith gwych yng Nghasnewydd a safon gwaith y Cyngor. Roedd materion megis poblogaeth yn tyfu yn y ddau begwn oedran ond roedd safonau y gwasanaethau plant, y gwasanaethau oedolion, addysg ac ailgylchu yn uchel. Roedd hyn oherwydd bod y Cyngor wedi rheoli'n rhagweithiol sut y gellid mynd i'r afael â hyn. Nid oedd pryder ynghylch safon ond roedd y gwasanaethau dan bwysau a gallai'r Cyngor wneud yn well ond nid oedd yn tangyflawni.

Cafodd yr Arweinydd fod y Pwyllgor wedi gwneud pwyntiau perthnasol a chytundd fod angen meini prawf mwy amlwg. Roedd yn bwysig barnu ar lwyddiant a dysgu gan fethiannau a chynnal didwylledd. Ystyriwyd y feirniadaeth fel oedd yn ddyledus a gobeithid na châi'r un pwynt ei godi y flwyddyn ganlynol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Arweinydd a'r swyddogion am ddod ac awgrymodd roi trosolwg i'r rhai nad oeddent yn rhan. Cytunodd y Cadeirydd bod yr wybodaeth am Orfodi Parcio Dinesig yn anghydweddol ac y gellid felly ei egluro.

Roedd y Pwyllgor yn hoffi'r datganiad "Beth mae'r Cyngor yn mynd i'w wneud" ar ddiwedd pob categori.

Ategwyd bod y mesuriadau perfformiad yn ddangosyddion cenedlaethol yn unig ac nad oeddent yn ddefnyddiol, ond dywedodd y Cyngor hyn droeon. Mae'r Cyngor wedi ceisio cynnig ffigyrau mwy ystyrlon.

<u>Casgliadau:</u>

- Mae angen dull cyson o ran y Cynllun ac ystyried y cynnwys i'r gynulleidfa darged.
- Roedd angen pwyslais clir ar waith cydweithredol y cyngor.
- Doedd yr 20 ymrwymiad ddim yn glir, nid oedd yn hawdd croes gyfeirio'r amcanion yn y Cynllun, sy'n eu gwneud yn anodd eu monitro.
- Roedd camgymeriadau bychain yn yr adroddiad, a gyflwynid i'r Bartneriaeth Polisi a'r Rheolwr Cyfranogi.
- Roedd diffyg gwybodaeth gefndirol am destunau megis Siarter y Plant.

Roedd rhai enghreifftiau yn yr adroddiad a oedd yn ailadroddus.

4 **Diweddariad Drafft y Strategaeth Adfywio Economaidd**

Yn bresennol:

- Beverly Owen - Cyfarwyddwr Strategol - Lle
- Keir Duffin (Pennaeth Adfywio, Buddsoddi a Thai)
- Tracey Brooks, Rheolwr Datblygiad ac Adfywio

Traddododd y Pennaeth Adfywio a Thai gyflwyniad i'r Pwyllgor ar y Diweddariad Strategaeth Twf Economaidd drafft ar gyfer 2020.

Gofynnodd y Pwyllgor y cwestiynau canlynol:

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Adfywio a Thai am y cyflwyniad diddorol ac addysgol a theimlai fod y ddogfen yn anelu at y lefel gywir a bod yr wybodaeth yn berthnasol a

chywir. Roedd yn ddogfen dda iawn â'r gydbwysedd gywir o raffeg. Roedd hefyd digon o graffu i fesur.

Soniodd aelod o'r Pwyllgor fod y saethau ychydig yn ddryslyd. Sylwyd fodd bynnag, mai'r bwriad oedd i'r saethau ddangos y cyfeiriad teithio ac nid y targedau.

Gofynnodd y Pwyllgor pam mae Hyb Casnewydd dan pobl sy'n ysbrydoli ond dylai fod dan lles. Roedd hyn mewn perthynas ag ymwelwyr i'r ddinas, cesglid gwybodaeth i ddysgu pam mae pobl yn dod i'r ddinas oherwydd ei bod yn bwysg gwybod beth oedd yn denu ymwelwyr. Enghraifft a roddwyd oedd Llong Casnewydd, pwy oedd yn mynychu, a oedd potensial ac a ddylai'r cyngor adeiladu hyn oherwydd bod y nifer yn codi i dros 100 mil.

Gofynnodd y Pwyllgor pa ddata a gâi ei gasglu ar bob hunan-gyflogedig oherwydd eu bod yn brif gyfranwyr at economi Casnewydd. Byddai'r Rheolwr Datblygu a Adfywio yn darganfod a oedd dangosyddion perfformiad mewn perthynas â phobl hunangyflogedig.

Cyfeiriodd y Pwyllgor at Banel y Dinasyddion a Rhwydwaith Economaidd Casnewydd oherwydd bod prif arweinwyr wedi eu tynnu ynghyd gan y ddau grŵp hyn a theimlid fod angen mwy o eglurhad.

Roedd y Pwyllgor yn hoffi'r cynllun dadansoddiad SWOT; fodd bynnag, teimlai fod angen mwy o dystiolaeth.

O ran Cynnal a Chadw Eiddo, roedd 19% landlord yn landlord anghyfreithlon. Hoffai'r Pwyllgor weld hyn yn symud i'r categori 'Heriau' ac ychwanegu landlordiaid sy'n esgeuluso at y categori Bygythiadau.

Nid oedd sôn am effaith coridor yr M4 ar fusnesau ac er bod hon yn broblem genedlaethol, roedd ganddi rôl bwysig i'w chwarae yn y broses ymgynghori.

Cyfeiriodd aelod o'r Pwyllgor at yr enillion cyfatebol ag amser llawn oherwydd roedd gwaith â chyflog uchel ond roedd y swydd â chyflog isel yn cynyddu. Teimlid pe na ddeuai 'gyrwyr' i Gasnewydd, y câi'r ddinas ei gadael ar ôl a dylen felly geisio creu enillion uwch. Roedd hefyd angen myfyrwyr o'r brifysgol i aros yn y ddinas. Mae nifer o fyfyrwyr sy'n mynd i Brifysgol Metropolitan Caerdydd yn aros yng Nghaerdydd ac yn helpu i adfywio'r ddinas. Pe gallent gadw canran fechan o'r garfan, byddai hyn yn llwyddiant; felly gellid cyflwyno ffigyrau mewn modd mwy deniadol.

Dywedodd aelod o'r pwyllgor fod y ddogfen wedi ei gwella'n fawr ac y cwtogwyd arni gan 10 tudalen o ailadrodd. Byddai angen rhoi ffordd liniaru'r M4 yn y categori 'Bygythiadau' ac roedd pryder am y myfyrwyr ac economi'r nos. Yn gyffredinol, bu gwelliant ers y ddogfen ddiwethaf.

Cyfeiriodd aelod o'r Pwyllgor at y cyflogeion yn gobeithio cael cyflogau uwch a theimlai fod menywod yn dal i ddioddef ac awgrymodd fynd i'r afael â chwmnïau ar destun y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Dylid monitro'r cwmnïau hyn a dylent ddiogelu dinasyddion. Yn ogystal, awgrymwyd y gallai'r cyngor fonitro'r bobl sy'n cael Credyd Cynhwysol yn ogystal â budd-daliadau i bobl hŷn.

Awgrymodd aelod o'r pwyllgor y gellid hyrwyddo'r economi chwaraeon hefyd yng Nghasnewydd. Roedd Casnewydd bellach yn ddinas chwaraeon gyda llawer o fusnesau, cyfleoedd ar gyfer ffosiotherapyddion, hyfforddwyr, campfeydd bach a.y.b. Gallai'r Cyngor gynnal ffair chwaraeon, tebyg y ffair yrfaoedd er mwyn hyrwyddo'r cyfleusterau hyn yng Nghasnewydd. Dywedodd y Pennaeth Adfywio a Thai fod hyn yn sylw defnyddiol a gallai'r ddinas ddefnyddio chwaraeon fel atyniad economaidd.

Ategodd y Pwyllgor fod y ddogfen yn adborth da iawn ac yn ddarn da o waith.  Yr unig feirniadaeth oedd safon llun gwael rhai o'r lluniau.
Teimlid yn gyffredinol fod angen elfen ddiwylliannol i ddenu myfyrwyr i ganol y ddinas yn ogystal â myfyrwyr mwy aeddfed.  Roedd angen i'r Cyngor fod yn fwy adweithiol pan oedd potensial megis busnesau newydd yn dod i'r ddinas yn ogystal â denu cyflogeion mwy.

Roedd y sylwadau am Dinas yn Ffynnu yn oddrychol ac roedd angen i'r mesurau fod yn fwy gwrthrychol.

Casgliadau:

- Dan Casnewydd Nawr - Roedd angen ychwanegu Landlordiaid Anghyfreithlon at y categori Heriau ac roedd angen ychwanegu Landlordiaid Absennol at y categori Bygythiadau yn yr adroddiad.
- Dylid ychwanegu rhagor o wybodaeth ynghylch cyfleoedd busnes chwaraeon yng Nghasnewydd at yr adroddiad.
- Dan Lleoliad a Chysylltedd, dylai'r Adroddiad amlygu'r Bygythiadau/Heriau y mae ffordd liniaru'r M4 yn eu cyflwyno yng Nghasnewydd.

5 **Adroddiad Cynghorydd Craffu**

**Adroddiadau Cynghorwr Craffu - Blaengynllun**

Trafododd y Pwyllgor yr hysbyseb blaengynllun y cyfeiriwyd ato yn ochr lawr y nant o wastraff a gwastraff heb ei gofrestru, y gellid ei godi fel cynllun gwasanaeth.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

1 Tachwedd 2019
Eitemau agenda i'w cynnwys:
- Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2018/2019
- Strategaeth Rheoli Perfformiad - Monitro Argymhellion
- Strategaeth Toiledau Lleol

24 Ionawr 2020
Eitemau agenda i'w cynnwys:
- Cynigion Cyllideb Ddrafft a Chynllun Ariannol Tymor Canolig 2020/21

Daeth y cyfarfod I ben am 6.10 pm